

COLEG CAMBRIA

# Canllawiau i Ddysgwyr - Deallusrwydd Artiffisial

## GOLYGIAD ADDYSG BELLACH

llyfrgell@cambria.ac.uk

Mai 2026

# Deallusrwydd Artiffisial

## CANLLAW I DDEFNYDDWYR - COLEG CAMBRIA

### BETH YDY DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL?


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 03 |
| DEFNYDDIAU A CHYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL | 03 |
| FFYRDD Y GALL DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL EICH HELPU CHI GYDA'CH ASTUDIAETHAU | 04 |
| CYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL | 04 |


### DEFNYDDIO OFFER DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH GWAITH


| | |
|---|---|
| PWYSIG | 05 |
| DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I DDOD O HYD I WYBODAETH | 05 |
| SUT I WERTHUSO'R YMATEBION YN FEIRNIADOL | 06 |
| SUT I ANNOG DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I FIREINIO'R YMATEBION | 07 |
| DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I GYNORTHWYO EICH SILLAFU A'CH GRAMADEG | 10 |


### UNIONDEB ACADEMAIDD


| | |
|---|---|
| PWYSIG | 11 |
| SUT I GYFEIRIO AT OFFER DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL YN EICH GWAITH | 11 |
| CYFLWYNO EICH GWAITH | 12 |


**Os hoffech chi wybod rhagor am sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn eich gwaith, gall tîm eich llyfrgell eich helpu chi: llyfrgell@cambria.ac.uk**

# Beth ydy Deallusrwydd Artiffisial?

## CYFLWYNIAD



Mae Deallusrwydd Artiffisial (***Artifical Intelligence - "AI")*** yn cyfeirio at systemau ac offer cyfrifiadurol a all gyflawni tasgau sy'n dynwared deallusrwydd dynol. Gall hyn gynnwys ysgrifennu testun, cynhyrchu lluniau a fideos, datrys problemau, adnabod lleisiau a chyfieithu ieithoedd. Yn aml caiff y math hwn o AI ei gyfeirio ato fel AI Cynhyrchiol neu Fodelau Iaith Mawr (***Large Language Models - "LLM"***), tra bod systemau sydd wedi'u cynllunio i weithredu a gwneud penderfyniadau'n ymreolaethol i gyflawni nodau penodol yn cael eu hadnabod fel AI Asiantaidd.

Mae mwy a mwy o offer AI yn cael eu hymgorffori yn y pecynnau meddalwedd rydyn ni'n eu defnyddio, a byddwch chi'n defnyddio offer AI yn eich addysg a'ch gweithle yn y dyfodol. Wrth i chi ddatblygu eich sgiliau digidol, mae'n bwysig eich bod chi'n gwybod sut i ddefnyddio'r offer AI hyn yn effeithiol ac yn foesegol, a heb effeithio'n negyddol ar eich gwybodaeth eich hun, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth o'r pynciau rydych chi'n eu hastudio.

Mae Coleg Cambria yn defnyddio Google Workspace fel ei brif feddalwedd cynhyrchiant a chydweithio, a Google Gemini fel ei brif LLM. Mae'n offeryn AI diogel, ac nid ydy mewnbynnau defnyddwyr yn cael eu defnyddio i hyfforddi'r model. Gallwch chi ei gyrchu drwy eich cyfrif Google Coleg Cambria. Byddwch chi hefyd yn defnyddio offer AI eraill yn ystod eich amser yn y coleg, fel Wayground a Brisk.

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn hefyd ar gael drwy'r cyrsiau ar-lein isod -

- **Canllaw AI i Ddysgwyr - Cwrs Coassemble - Cymraeg**
- **Learner AI Guide - Coassemble Course - English**

## DEFNYDDIAU A CHYFYNGIADAU AI

Mae offer AI fel Gemini yn gallu prosesu a chyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n ymddangos bod yr offer yn dangos dealltwriaeth a meddwl yn feirniadol. Fodd bynnag, mae'r offer hyn yn gweithredu trwy ragweld y dilyniant mwyaf tebygol o eiriau yn seiliedig ar batrymau mae'n eu dysgu o setiau data enfawr. Maen nhw'n dynwared sgiliau dynol yn fedrus fel crynhoi oherwydd maen nhw wedi dysgu'r patrymau ieithyddol o enghreifftiau dirifedi yn eu data. Dyna pam ei bod hi'n hanfodol eich bod chi'n gwerthuso'n feirniadol y wybodaeth a gynhyrchir gan AI bob amser.

# Beth ydy AI?

## FFYRDD Y GALL AI EICH HELPU CHI GYDA'CH ASTUDIAETHAU

- Gwella gramadeg, arddull ysgrifennu a strwythur aseiniadau, heb newid y cynnwys
- Archwilio i sut mae eich ysgrifennu yn swnio mewn naws gwahanol ac at ddibenion gwahanol
- Crynhoi gwybodaeth fel eich nodiadau dosbarth
- Adolygu a dadansoddi gwybodaeth ysgrifenedig mewn ffordd sy'n berthnasol i chi
- Cynhyrchu cwestiynau ymarfer neu gwis i baratoi ar gyfer arholiadau
- Cyfieithu testun i wahanol ieithoedd
- Cynhyrchu awgrymiadau a syniadau i chi eu datblygu i helpu i oresgyn 'bloc yr awdur'
- Ysgrifennu a dadfygio cod
- Trefnu eich amser astudio
- Cynhyrchu syniadau ar gyfer creu eich delweddau eich hun
- Cynhyrchu delweddau o destun, y gallwch chi eu defnyddio mewn cyflwyniadau

Gallai dibynnu ar AI fel yr unig ffynhonnell o wybodaeth neu ddealltwriaeth yn eich astudiaethau leihau eich gallu i feddwl yn feirniadol a dysgu'n ddwfn. Ni ddylai AI gael ei ddefnyddio i ddargyfeirio cyfleoedd dysgu a gallai gwneud hynny leihau eich siawns o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hanfodol.

Er bod cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac yn ymddangos yn argyhoeddiadol, yn aml gall yr offer wneud camsyniadau. Dylech chi bob amser gwestiynu'r allbwn, defnyddio'ch barn ynghylch ei ddibynadwyedd, a gwirio'r wybodaeth sy'n cael ei darparu.

## CYFYNGIADAU DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL

- Gallai gynhyrchu gwybodaeth ffug (mae'n cael ei gyfeirio ato fel rhithweledigaethau)
- Yn gallu cynhyrchu gwybodaeth sy'n rhagfarnllyd, yn annheg neu wedi'i stereoteipio gyda safbwyntiau Gorllewinol yn fwy amlwg
- Yn gallu darparu atebion generig gyda diffyg gwir ddealltwriaeth
- Ddim bob amser yn agored i wybodaeth newydd sy'n gwrth-ddweud ei gred gyfredol
- Yn gallu camddehongli'r hyn rydych chi'n gofyn iddo ei wneud a chael trafferth gyda deall cyd-destun, cyfeirio at ei ffynonellau nac yn eu dyfynnu
- Gallai delweddau sy'n cael eu creu dorri hawlfraint neu dresmasu ar hawliau unigol
- Gall asiantau AI ymddwyn mewn ffyrdd annisgwyl neu gymryd camau gweithredu nad ydynt wedi'u bwriadu

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## PWYSIG

**Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth sensitif, gan gynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol neu ddata, yn yr offer AI.**

**Gwiriwch gyda'ch tiwtor bob amser a ydy cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan AI yn cael ei ganiatáu yn eich gwaith; gall amrywio rhwng pwnc a modiwl.**

**Peidiwch byth â defnyddio asiantau AI heb awdurdod gydag unrhyw system coleg.**

**Mae gan lawer o offer AI gyfyngiadau oedran, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio offer sy'n briodol i'ch oedran neu fod gennych chi'r caniatâd priodol.**

**Peidiwch â defnyddio AI i gynhyrchu lluniau o bobl byw heb ganiatâd. Peidiwch â chreu lluniau a allent dorri hawlfraint chwaith.**

Os ydych chi'n defnyddio offer AI yn eich gwaith academaidd, darllenwch y canllawiau hyn ar sut i gydnabod a chyfeirio at hynny.

Ni allwch chi ddibynnu ar offer AI i gynhyrchu gwybodaeth gywir, a gallan nhw gynhyrchu ymatebion sy'n cynnwys gwybodaeth anghywir, wedi dyddio neu ragfarnllyd gan gynnwys rhagfarnau ac anghyfiawnderau ynghylch nodweddion gwarchodedig megis hil, oedran a chrefydd. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwerthuso unrhyw gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu gan offer AI yn feirniadol.

Gall offer AI gynhyrchu cyfeiriadau ffug at lyfrau ac erthyglau, felly gwiriwch y ffynhonnell wreiddiol bob amser am gywirdeb cyn eu defnyddio.

Mae offer AI yn newid yn gyflym. Rydyn ni'n argymell eich bod chi'n gwirio'r canllaw hwn yn aml oherwydd gall ein cyngor newid wrth i'r offer hyn ddatblygu. Os ydych chi'n ansicr, siaradwch â'ch Anogwr Cynnydd neu Diwtor am gyngor.

## DEFNYDDIO AI I DDOD O HYD I WYBODAETH

Mae defnyddio AI yn wahanol i ddefnyddio peiriannau chwilio traddodiadol fel Google. Mae peiriannau chwilio yn defnyddio'ch allweddeiriau i nodi ystod o ffynonellau i'w harchwilio, mae hyn yn cymryd amser i'w mireinio ac ymchwilio. Ar yr wyneb mae'n ymddangos bod AI yn darparu ffynhonnell unigryw o wybodaeth sydd wedi'i chynhyrchu i chi yn unig, mae'n ymddangos ei bod wedi rhoi'r ateb i chi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad ydy AI yn creu gwybodaeth yn y ffordd y gallech chi ei disgwyl ac yn gyfarwydd â hi. Mae'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chynhyrchu yn cael effaith fawr ar ddibynadwyedd ac awdurdod yr ymateb, a sut y gallech chi ei ddefnyddio yn ystod eich astudiaethau.

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

COLEG CAMBRIA

## SUT I WERTHUSO'R YMATEBION SY'N CAEL EU CYNHYRCHU GAN AI YN FEIRNIADOL

**Wrth werthuso unrhyw wybodaeth, mae'n ddefnyddiol cofio'r prawf CRAAP:**

| CYFREDOLDEB | PERTHNASEDD | CYWIRDEB | AWDURDOD | DIBEN |
|---|---|---|---|---|
| Pryd gafodd y wybodaeth ei chreu neu ei hysgrifennu (ydy gwybodaeth yr AI yn gyfredol)? | Pa mor berthnasol ydy'r wybodaeth i'ch gwaith? | Ydy'r wybodaeth yn ddibynadwy, gwir a chywir? Ydy'r wybodaeth wedi'i chyfeirnodi a'i chadarnhau gyda data? | O ble mae'r wybodaeth yn dod? Pwy sydd wedi'i hysgrifennu ac ydyn nhw'n berson addas i gael y wybodaeth ganddyn nhw? | Pam mae'r wybodaeth ar gael? Oes yna ragfarnau, ydy'r wybodaeth yn ffeithiol? |

Os ydych chi'n cymhwyso'r prawf CRAAP i offer fel Gemini gallwch chi weld na fyddai'r allbwn AI yn cael ei ystyried yn ffynhonnell gredadwy o wybodaeth. Fodd bynnag, os ydych chi am ddefnyddio gwybodaeth sy'n dod o offer AI, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud y canlynol:

- Croeswiriwch yr ymateb gyda ffynonellau eraill a nodiadau o'ch dosbarth. Sut mae'r ymateb yn cyd-fynd â'ch gwybodaeth a'ch gwerthoedd chi? Peidiwch â derbyn yr ymateb ar yr olwg gyntaf. Mae'n iawn i'w gwestiynu.
- Gwiriwch fod unrhyw gyfeiriadau sy'n cael eu darparu yn rhai go iawn, ydy'r llyfr neu'r erthygl yn bodoli? Ydy'r manylion cyhoeddi'n gywir?
- Gwiriwch fod y cyfeiriadau yn cyfateb i'r wybodaeth yn yr ymateb ac nad ydyn nhw wedi'u camliwio.
- Gwiriwch eich bod chi'n gwybod sut i gyfeirio at yr ymateb AI os ydych chi'n bwriadu cynnwys unrhyw ran ohono yn eich gwaith.

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## SUT I ANNOG DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I FIREINIO'R YMATEBION

Rhaid i bromptiau AI fod yn glir, yn gryno ac yn uniongyrchol i sicrhau bod yr offer yn deall y dasg yn gywir. Trwy gadw paramedrau penodol ar gyfer eich ymholiad mewn golwg fel eich nod, y pwnc a'r gynulleidfa gallwch chi fireinio'ch ymholiad trwy ddefnyddio allweddeiriau a manylion am sut rydych chi'n disgwyl i'r ymateb gael ei lunio.

Er bod offer AI yn cynhyrchu atebion fel pe bai'n sgwrsio gyda chi, rhaid gwerthuso'r ymatebion hyn yn feirniadol a'u gwirio bob amser i sicrhau eu bod fel yr oeddech chi'n bwriadu.

I fynd i'r afael â'r her hon, rhaid i chi:

- Fod yn glir o ran eich cyfarwyddiadau.
- Aralleirio eich ymholiadau os nad ydych chi'n cael yr ymateb rydych chi ei eisiau.
- Gofyn cwestiwn caeedig os ydych chi'n chwilio am ateb penodol.
- Cynnwys cymaint o fanylion a chyd-destun perthnasol â phosibl yn eich promptiau.



# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## BETH I'W GADW MEWN COF

### TASG

Rhaid i'r dasg gael ei gosod allan yn glir ar gyfer yr offeryn AI, gyda'r holl gyd-destun a gwybodaeth sydd ei hangen arno. Pe baech chi'n gofyn i berson wneud rhywbeth i chi, beth fyddai angen iddyn nhw ei wybod i'w wneud yn iawn?

### CYNULLEIDFA

I ba gynulleidfa mae'r ymateb?

### NOD

Byddwch yn benodol am nod eich prosiect. Ydych chi'n gobeithio creu post cyfryngau cymdeithasol, ateb e-bost neu ysgrifennu blog? Bydd gan bob math o gynnwys arddull arbennig. Bydd cadw nod mewn golwg yn sicrhau bod yr ymateb yn gywir.

### PWNC

Byddwch yn benodol am eich pwnc. Ydych chi eisiau ymateb sydd wedi'i dargedu at ddiwydiant neu gynnyrch penodol?

# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## BETH I OFYN AMDANO

### LLAIS

Mae nodi llais ar gyfer yr ymateb yn helpu'r offer AI i ddefnyddio'r eirfa gywir o'i set ddata. Ydych chi am i'r ymateb gael ei ysgrifennu o safbwynt person penodol?

### FFORMAT

Ym mha fformat yr hoffech i'r ymateb gael ei gynhyrchu? Ydych chi eisiau rhestr fwledi neu gerdd?

### CYFRIF GEIRIAU

Gofynnwch i'r offer AI gadw at nifer penodol o eiriau. Os oes angen ateb cryno arnoch chi, nodwch yr hyd rydych chi ei eisiau, fel "mewn un paragraff" neu "mewn 100 gair."

### DILYNIANT

Os nad ydych chi'n cael yr ymateb roeddech chi wedi'i obeithio, mireiniwch eich awgrymiadau ac arbrofwch gyda chwestiynau ac ymadroddion gwahanol.

### GEIRIAU ALLWEDDOL

Byddwch yn benodol am yr hyn rydych chi ei eisiau o'r ymateb. Po fwyaf penodol ydych chi yn eich ymholiad, y mwyaf cywir fydd yr allbwn.

### NAWS

Ym mha naws yr hoffech i'r ymateb gael ei ddychwelyd? Ydych chi am iddo fod yn gadarnhaol, yn ddifrifol neu'n broffesiynol?

### CYFEIRIADAU

Gofynnwch am gyfeiriadau ar gyfer yr ymateb os oes angen gwybodaeth arnoch chi sy'n cael ei hategu gan ymchwil (cofiwch groeswirio'r rhain).



# Defnyddio offer AI yn eich gwaith

## DEFNYDDIO DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL I GYNORTHWYO EICH SILLAFU A'CH GRAMADEG

Gall offer AI fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi eich ysgrifennu, ond rhaid i'ch gwaith gynrychioli eich dealltwriaeth eich hun bob amser.

**Gallwch ddefnyddio offer AI i gynorthwyo:**

- Gwirio sillafu, gramadeg ac atalnodi
- Gwella eglurder neu ddarllenadwyedd
- Adolygu tôn eich ysgrifennu

Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio AI mewn ffordd sy'n disodli eich meddwl neu'n cynhyrchu gwaith i chi.

Mae rhai offer bellach yn cynnig nodweddion sy'n mynd y tu hwnt i brawfddarllen syml. Gall y rhain ailysgrifennu brawddegau, aralleirio paragraffau, neu gynhyrchu cynnwys. Gall defnyddio'r nodweddion hyn olygu nad eich gwaith chi ydy o bellach.

Fel rheol gyffredinol:

- Os ydy offeryn ond yn cywiro gwallau, mae'n debygol ei fod yn dderbyniol. Os yw'n newid eich syniadau neu'n ailysgrifennu eich gwaith, efallai na fydd yn cael ei ganiatáu.

**Ni ddylech ddefnyddio offer AI i:**

- Gynhyrchu atebion neu gwblhau aseiniadau i chi
- Ailysgrifennu paragraffau neu ddarnau cyfan o waith yn sylweddol
- Creu dadleuon neu ddadansoddiadau rydych chi wedyn yn eu cyflwyno fel eich gwaith eich hun

Dylech bob amser ddilyn y canllawiau a roddir gan eich tiwtor, gan y gall fod gan wahanol gyrff dyfarnu a chymwysterau reolau penodol ynghylch defnyddio AI.

**Defnyddio Grammarly ac offer tebyg**

Gall offer fel Grammarly fod yn ddefnyddiol ar gyfer prawfddarllen a gwella cywirdeb. Fodd bynnag, mae rhai nodweddion o fewn yr offer hyn yn defnyddio AI i ailysgrifennu neu gynhyrchu testun.

Gallwch ddefnyddio'r offer hyn ar gyfer:

- Gwirio sillafu a gramadeg
- Nodi brawddegau aneglur
- Adolygu tôn

Ni ddylech ddefnyddio'r offer hyn i:

- Ailysgrifennu eich gwaith yn awtomatig
- Aralleirio darnau mawr o destun
- Cynhyrchu cynnwys newydd ar gyfer aseiniadau

Os ydych yn ansicr a ydy eich defnydd o offeryn yn briodol, siaradwch â'ch tiwtor cyn cyflwyno'ch gwaith.

# Uniondeb Academaidd

## PWYSIG

Rhaid i unrhyw waith rydych chi'n ei gyflwyno fod yn waith eich hun - eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth. Mae camddefnyddio AI yn gamymddygiad, a gall arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys gwaharddiad. Gall hyn gynnwys copïo, aralleirio, neu fethu â chydnabod cynnwys a gynhyrchwyd gan AI - mae hyn yn **llên-ladrad.**

Wrth gyflwyno gwaith i'w asesu, mae Datganiad yr Ymgeisydd yn arbennig o bwysig, gan fod hyn yn cadarnhau mai eich gwaith eich hun yw'r gwaith - rhaid i hwn fod yn honiad cywir.

Rhaid i Ddatganiadau Ymgeisydd Digidol gael eu llofnodi gennych chi, ac ni ellir eu dirprwyo i asiant AI, awtomeiddio porwr, na llif gwaith ymreolaethol.

## SUT I GYFEIRIO AT OFFER AI YN EICH GWAITH

Rhaid cyfeirio at AI yn yr un modd ag unrhyw ffynhonnell arall. Ar ei ben ei hun, ni ellir defnyddio ffynhonnell fel tystiolaeth ac ni fydd yn ennill unrhyw farciau - rhaid i chi ddangos eich dealltwriaeth eich hun. Pan fyddwch chi'n defnyddio offer AI fel ffynhonnell wybodaeth, rhaid i chi enwi'r offer AI a'r dyddiad y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i gynhyrchu cynnwys. Er enghraifft:

Fel dyfyniad yn y testun:

> **Gemini 3.1 Pro, 2026**

Ac yna'r manylion llawn yn yr adran gyfeirio:

> **Gemini 3.1 Pro (https://gemini.google.com/app), 09/03/2026**

Rhaid i chi hefyd gadw copi o'r prompt(iau) a ddefnyddiwyd, y cynnwys a gynhyrchwyd, a'r gweithredoedd a wnaed, mewn fformat na ellir ei olygu fel sgrinlun, yn ogystal ag esboniad byr o sut y gwnaethoch chi ddefnyddio'r cynnwys hwn. Rhaid cyflwyno hwn gyda'ch gwaith.

# Uniondeb Academaidd

## CYFLWYNO EICH GWAITH

Rhaid i unrhyw waith rydych chi'n ei gyflwyno fod yn waith eich hun - eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch dealltwriaeth. Mae camddefnyddio AI yn gamymddygiad, a gall arwain at ganlyniadau difrifol, gan gynnwys gwaharddiad. Gall hyn gynnwys copïo, aralleirio, neu fethu â chydnabod cynnwys a gafodd ei gynhyrchu gan AI - mae hyn yn llên-ladrad.

Wrth gyflwyno gwaith i'w asesu, mae Datganiad yr Ymgeisydd yn arbennig o bwysig, gan fod hyn yn cadarnhau mai eich gwaith eich hun yw'r gwaith - rhaid i hwn fod yn honiad cywir.

**Os hoffech chi gael rhagor o gefnogaeth neu arweiniad ar ddefnyddio AI yn eich gwaith coleg, cysylltwch â llyfrgell@cambria.ac.uk i drefnu cyfarfod ag aelod o'n tîm.**